CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
8 Mehefin 2016 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng I Roberts, R G Parry, N Highley, C Ll Thomas, K Humphreys, G Parry, N Roberts (Cyngor Sir)

YMDDIHEURIADAU
Cyng D Rees (Cyngor Sir), E Huws, I Rowlands, S Parry

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Cynigodd y Cadeirydd croeso i aelod newydd Cyng Gethin Parry

DATGAN DIDDORDEB - Cyng N Roberts (ceisiadau cynllunio)

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 11 Mai 2016, Cyng N Highley yn cynnig a Cyng C Ll Thomas yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae'r Clerc yn disgwyl canlyniad y cais am y grant
Ceisiadau ariannol Groundworks a Watkin Jones - mewn llaw.
Ffensys maes chwarae (y rhai a ddifrodwyd) - Mae'r perchennog wedi symud y preniau oedd yn sownd i'r ffens.
Siec cyfrif y maes chwarae - mewn llaw
Maes chwarae (trin yr offer) - mewn llaw
Lon Salem - Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno gosod railings newydd, dau "drop" i croesi y lon a lampiau melyn.

ADRODDIAD y CADEIRYDD
Yn dilyn cwrs ar cadeirio cyfarfodydd, dywedodd y Cadeirydd bod "materion eraill" ddim i fod ar yr agenda. O hyn ymlaen bydd materion ar gyfer y cyfarfod nesaf ar diwedd yr agenda misol.

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
Swyddog Gwasanaethau Dinesig a Democrataidd
Sul y Cadeirydd. Bydd y Cadeirydd yn derbyn gwahoddiad Cadeirydd y Cyngor Sir
Cynllunio
16C149A cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Afallon, Lon Salem, Bryngwran - dim gwrthwynebiad
16C106B cais llawn ar gyfer dymchwel rhan o adeilad ynghyd a addasu ac ehangu yn Bryn Glas Garage, Bryngwran - dim gwrthwynebiad

LLOFNOD (Cadeirydd) 27 Gorffennaf 2016

Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
Y Côd Ymddygiad - Mabwysiadwyd y Cyngor y Cod diweddaraf gyda dim newidiadau.

GOHEBIAETH YCHWANEGOL
National Grid (holiadur) - Bydd y Clerc yn ymateb
Centenary Fields - gwybodaeth yn unig

MATERION ARIANNOL
Cytunwyd i dalu Unllais Cymru £35.00 (cwrs cadeirio cyfarfodydd)

MATERION ERAILL
Bydd y cyfarfod nesaf 27.07.17
Gofynwyd i'r Clerc cael pris am hysbysffwrdd ychwanegol i rhoi wrth ymyl y "Iorwerth"

LLOFNOD (Cadeirydd) 27 Gorffennaf 2016